**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Hydref 2015**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Bobby Feeley – Cysylltiad Personol - Eitemau 5 a 6 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - Cysylltiad Personol - Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd David Smith – Cysylltiad Personol - Eitemau 5 a 6 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Merfyn Parry – Cysylltiad Personol – Eitemau rhif 5 a 6 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Huw Williams - Cysylltiad Personol - Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYNNIG I GAU YSGOL LLANFAIR DYFFRYN CLWYD AC YSGOL PENTRECELYN O 31 AWST 2017, A BOD ESGOBAETH LLANELWY YN AGOR YSGOL GYNRADD WIRFODDOL A REOLIR NEWYDD FFRWD DDEUOL CATEGORI 2, YR EGLWYS YNG NGHYMRU O 1 MEDI, 2017 | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn:-*<br><br>*(a) nodi canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiad;*<br><br>*(b) yn dilyn ystyried yr uchod, mae'r Cabinet yn cymeradwyo gweithrediad y cynnig a'r diwygiad arfaethedig i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2017, a bod Esgobaeth Llanelwy yn agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir newydd ffrwd ddeuol Categori 2 yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2017;*<br><br>*(c) bod ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol categori 1 agosaf, yn cael eu hystyried fesul achos, gan ddisgyblion presennol Ysgol Pentrecelyn a'u brodyr a'u chwiorydd am weddill eu haddysg gynradd yn dilyn cau'r ysgol (ar 1 Medi 2017), a*<br><br>*(d) bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i fonitro safonau a chanlyniadau'r Ysgol Ardal newydd a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, Archwilio a chan y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Hydref 2015**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **6** | BWRIAD I GAU YSGOL LLANBEDR DYFFRYN CLWYD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion presennol i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.* |
| **7** | ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2015: DIFFYG CYFLENWAD 5-MLYNEDD O DIR SY'N BAROD I'W DDATBLYGU AR GYFER TAI | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r Adroddiad Monitro Blynyddol llawn (ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad), sef yr adroddiad cyntaf o'i fath;*<br><br>*(b) yn cytuno y dylid anfon datganiad ysgrifenedig ar ran y Cabinet i Lywodraeth Cymru yn amlinellu pryderon am y dull cyfrifo a ragnodwyd ar gyfer cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai sy'n rhwydd i'w ddatblygu, ac*<br><br>*(c) anfon copi o gyflwyniad y Cyngor i Lywodraeth Cymru at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn gofyn am gefnogaeth.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac yn*<br><br>*(b) cymeradwyo trosglwyddo cyllid o £40,000 i gronfa wrth gefn y System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig i helpu ariannu'r prosiect yn 2016/17.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |